CDLl2

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## 2018- 2033

## Papur Pwnc:

## Cynllun Datblygu Lleol a Llesiant a chadernid y Cynllun

## Y Strategaeth a Ffefrir 2019

Draft

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Draft

**Cynnwys**


Nodyn i'r Darllenydd ii

1. Crynodeb Gweithredol 1

2. Cyflwyniad 2

3. Dadansoddiad 4

4. Cadernid y Cynllun Newydd, CDLl2 17

5. Casgliadau / Argymhellion 18


Drafft

# Nodyn i'r Darllenydd

Mae Papurau Pwnc yn bapurau cefndir sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer y dewisiadau a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyhoeddwyd y Papurau Pwnc ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Adnau yr un pryd (Rhagfyr 2010), ac maent yn dal i fod ar gael ar wefan y Cyngor neu ar ffurf copi papur ar gais.

Mabwysiadwyd CDLl Ceredigion yn Ebrill 2013. Mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol gwblhau Adroddiadau Monitro Blynyddol i asesu i ba raddau y mae strategaeth, polisïau a safleoedd datblygu'r CDLl yn cael eu cyflenwi.
Er mwyn sicrhau yr asesir yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr a yw cynlluniau'n parhau'n gyfoes, mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad llawn o'r CDLl mabwysiedig ar gyfnodau penodol heb fod yn hwy na 4 blynedd o ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun.

Roedd Adroddiad Adolygiad CDLl Ceredigion 2017 wedi nodi faint o newidiadau y mae angen eu gwneud i'r CDLl a'r drefn ddiwygio i'w dilyn.

Prif bwrpas y Papur Pwnc Diweddaru hwn yw dangos, ers i'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau gael ei gyhoedd a'i fabwysiadu wedi hynny yn Ebrill 2013, a fu unrhyw newidiadau (mewn cyfarwyddyd, polisïau neu strategaethau perthnasol, gwybodaeth a thystiolaeth, neu faterion sydd yn dod i'r amlwg trwy Adroddiad Adolygiad 2017 ffurfiol a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol, neu apeliadau), sy'n awgrymu bod y materion a gafodd sylw yn y CDLl mabwysiedig wedi newid, neu nid ydynt yn cael sylw llawn yn y polisïau.

Draft

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1.1 Mae'r Papur Pwnc yn rhoi asesiad diagramatig o gysondeb Gweledigaeth ac Amcanion Cynllun Lleol Ceredigion A HEFYD 'Gweledigaeth gyda Thestun Esboniadol' ddiwygiedig arfaethedig yn erbyn Nodau Llesiant Cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac Amcanion Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018. Mae'n cyfrannu at broses ailadroddol o sicrhau 'cadernid' y cynllun newydd.

1.1.2 Mae'n canfod bod llesiant wrth wraidd ystyriaethau yng nghamau cynnar paratoi CDLl1 Ceredigion, a gwblhawyd ochr yn ochr â'r Strategaeth Gymunedol 'Ceredigion 2020', ac adlewyrchir hyn i raddau helaeth yng nghanlyniadau'r asesiadau o gysondeb.

1.1.3 Mae'r Papur yn argymell y dylai'r Weledigaeth ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl2 Ceredigion fod yn 'Weledigaeth gyda Thestun Esboniadol' gryno a diwygiedig (fel y'i diwygiwyd) sy'n ganlyniad i sawl cyfle ymgysylltu, ac y dylai Amcan 4 sy'n delio â thwristiaeth gael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at 'ddiwylliant' fel agwedd bwysig ar dwristiaeth wedi'i seilio ar gynllunio rheoli cyrchfan. Mae hyn yn cynnig dimensiwn gofodol cydnabyddedig i botensial twristiaeth y sir yn seiliedig ar ei hasedau diwylliannol yn ogystal â'i hasedau amgylcheddol.

1.1.4 Mae Adroddiad yr Adolygiad CDLl 2017 yn nodi graddfa'r newidiadau sy'n ofynnol i'w gwneud i'r CDLl Ceredigion gwreiddiol. Cafodd y newidiadau a argymhellir eu llywio gan gasgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth ac arolygon parhaus. Ynghyd â diweddariadau parhaus i Bapurau Pwnc, mae'r asesiadau o gysondeb y CDLl â'r Nodau ac Amcanion Llesiant yn y papur hwn yn cyfrannu at drosolwg sy'n sicrhau ymrwymiadau i 'gadernid' CDLl2.

Draft

# 2. Cyflwyniad

2.1.1 Roedd CDLl Ceredigion 2007-2022 yn ffrwyth llafur ymgysylltu helaeth, yn arbennig yn ystod y camau cynnar mewn perthynas â'r Weledigaeth a'r Amcanion, ochr yn ochr â datblygu Strategaeth Gymunedol Ceredigion, gyda'r nod penodol o greu'r sylfeini ar gyfer dyfodol llesiant Ceredigion.

2.1.2 Yn 2008, gwahoddwyd dros 130 o sefydliadau a phartneriaethau allanol i'r digwyddiad ymgysylltu cychwynnol yn cynrychioli ystod eang o agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, yn amrywio o grwpiau lleol iawn megis Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ceredigion i'r grwpiau mwy rhanbarthol a chenedlaethol megis dosbarthwyr pŵer. Ymysg yr 80 o gynrychiolwyr oedd yn gallu mynychu, roedd nifer yn cynrychioli mwy nag un bartneriaeth neu sefydliad. Felly mae 'llesiant' wedi dylanwadu ar Weledigaeth ac Amcanion CDLl Ceredigion o'r dechrau un.

2.1.3 Ers yr adeg honno, mae llesiant wedi cael ei ddiffinio'n fwy manwl a hoelir sylw arno fel elfen bwysig wrth lunio polisïau cenedlaethol a lleol.

2.1.4 Gall Gweledigaeth ac Amcanion cyfredol y CDLl fanteisio ar asesiadau Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol gofalus hefyd. Mae Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (2019) ar gyfer Strategaeth a Ffefrir CDLl2 yn dangos lefel uchel o gysondeb rhwng amcanion presennol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Nodau a Blaenoriaethau Llesiant Cenedlaethol ac Amcanion Llesiant Lleol Ceredigion.

2.1.5 Mae'r adroddiad hwn yn dangos (ar ffurf diagramau yn bennaf) i ba raddau y mae Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl cyfredol yn adlewyrchu'r saith Nod a Blaenoriaeth Llesiant Cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac Amcanion Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018 a fabwysiadwyd.

2.1.6 Mae'r Papur Pwnc yn darparu dau asesiad cod lliw ar wahân o berfformiad Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl, y cyntaf yn erbyn Nodau Llesiant Cenedlaethol a'r ail yn erbyn Amcanion Llesiant Lleol Ceredigion.



Draft

2.1.7 Mewn perthynas â'r Weledigaeth, mae fersiwn fyrrach newydd gyda thestun esboniadol wedi cael ei drafod yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Gweithgorau Aelodau a gweithdai rhanddeiliaid allweddol ar gyfer y cynllun newydd. Felly caiff y testun hwn ei asesu ar wahân o ran ei deilyngdod mewn perthynas â chysondeb â nodau ac amcanion cenedlaethol a lleol.

2.1.8 Ar sail yr asesiadau hyn, mae'r Papur Pwnc yn awgrymu a yw geiriad newydd yn cael ei argymell neu beidio ar gyfer Gweledigaeth bresennol y CDLl ac unrhyw Amcanion, ac os ydyw, mae'n darparu testun diwygiedig posibl yn Adran 4: Casgliadau ac Argymhellion.

Draft

# 3. Dadansoddiad

3.1.1 Mewn perthynas â Thabl 3.1 isod, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio system cod lliw i ddangos canlyniad yr arfarniad ysgrifenedig o bob amcan y CDLl, yn unol â'r allwedd isod.

| **Allwedd** | |
|---|---|
| Y Nod Llesiant wedi'i gyflawni | **WG** |
| Byddai'r Nod Llesiant yn gwella amcan y CDLl | **G** |
| Y Nod Llesiant heb ei fodloni gan amcan y CDLl | **HF** |
| Y Nod Llesiant ddim yn berthnasol i amcan y CDLl | **DdB** |

3.1.2 Mae Tablau 3.1 a 3.2 isod yn darparu asesiad o gysondeb Gweledigaeth ac Amcanion presennol CDLl Ceredigion â'r Nodau Llesiant Cenedlaethol a'r Amcanion Llesiant Lleol. Er y gall fod rheswm dros ddiwygio'r amcanion, o ganlyniad i'r asesiadau hyn, caiff yr argymhellion ar gyfer newid eu hamlinellu yn Adran 4.

Draft

## Tabl 3.1 Asesiad o gysondeb Gweledigaeth ac Amcanion CDLl Ceredigion â'r Nodau Llesiant Cenedlaethol

| | Nod Llesiant Cenedlaethol | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl** | | | | | | | | |
| O Fynyddoedd Cambria i Fae Ceredigion, bydd Ceredigion yn parhau'n sir gyfoethog o ran ei golygfeydd a'i bioamrywiaeth, yn sir sy'n ymrwymo i gynnal ac i ategu harddwch ei harfordir, ei hucheldir a dyffrynnoedd ei hafonydd ac i gael budd ohonynt.<br><br>Bydd yn gartref i rwydwaith bywiog o gymunedau brwd a dwyieithog, yn ei threfi ac yng nghefn gwlad, a bydd ei thrigolion yn mwynhau iechyd a lles da. Bydd y cymunedau hyn yn dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol a hefyd yn dylanwadu ar newid ac yn ei goleddu er mwyn ymateb i heriau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd. Drwy gefnogi a gwella canolfannau gwasanaethau trefol a gwledig y Sir, cryfheir y gydberthynas rhyngddynt, bydd llai o angen i bobl deithio a bydd cyfleusterau lleol a chynaliadwy'n fwy hwylus ac yn fwy cadarn. | | Ff | WG | WG | WG | WG | WG | WG |
| 1. Darparu ar gyfer ystod a chymysgedd o dai i ddiwallu'r gofynion tai trefol a gwledig ac anghenion amrywiol poblogaeth Ceredigion, sy'n tyfu ac yn heneiddio, rhwng 2007 a 2022. | | DdB | DdB | WG | WG | WG | WG | WG |
| 2. Hyrwyddo economi gwledig cynaliadwy, amrywiol a blaengar er budd Ceredigion a'i chymunedau lleol; ac annog adfywio a datblygu trefi'r Sir fel eu bod yn barod i gwrdd â sialensiau economi | | WG | WG | WG | WG | WG | WG | WG |

Draft

| | Nod Llesiant Cenedlaethol | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| fodern a dynamig. | | | | | | | | |
| 3. Annog twf sector manwerthu cynaliadwy i gynnal a gwella canol trefi bywiog ac i amddiffyn a datblygu cyfleusterau manwerthu lleol a chymunedol ledled y Sir. | | WG | DdB | WG | WG | WG | DdB | WG |
| 4. Annog a hyrwyddo sector twristiaeth cynaliadwy, ystyriol o'r amgylchedd, gydol y flwyddyn ledled Ceredigion, a bod y sector yn cael ei gynnal gan sylfaen llety dda yn darparu ar gyfer ystod eang o farchnadoedd ac yn darparu cyfleusterau amrywiol ar gyfer pob tymor. | | WG | WG | DdB | WG | WG | G | WG |
| 5. Hybu patrwm twf sy'n help i gynnal bywiogrwydd nid dim ond y trefi a'r gefnwlad wledig o'u cwmpas ond hefyd gymunedau gwledig y sir eang hon, a hynny mewn ffordd sy'n cryfhau ei nodweddion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ac yn sicrhau'r hygyrchedd a'r cysylltedd cynaliadwy gorau posib | | WG | WG | WG | WG | WG | WG | WG |
| 6. Cynnal a gwella amgylchedd adeiledig o safon uchel sydd: yn caniatáu dylunio arloesol, yn adlewyrchu ymdeimlad o le, yn hawdd cyrchu ato a'i ddefnyddio, yn ddiogel i fyw ynddo ac yn helpu gwella iechyd a lles ei gymunedau. | | WG | WG | WG | WG | WG | WG | WG |
| 7. Gwella a helpu sicrhau bod lefel briodol o gyfleusterau a gwasanaethau addysg, iechyd, diwylliannol, cymdeithasol, adloniant, cymunedol, chwaraeon a hamdden yn cael eu darparu a'u | | WG | WG | WG | WG | WG | WG | DdB |

Draft

| | Nod Llesiant Cenedlaethol | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| hamddiffyn a bod mynediad priodol atynt | | | | | | | | |
| 8. Cefnogi datblygu'r iaith Gymraeg a hybu cymunedau dwyieithog cynhwysol yng Ngheredigion. | | WG | DdB | WG | WG | WG | WG | WG |
| 9. Sicrhau bod datblygiadau'n lleihau nwyon tŷ gwydr Ceredigion i'r eithaf, yn unigol ac yn gronnus; a cheisio'u lleihau lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Sicrhau bod pob datblygiad yn gydnerth ac yn gallu ymaddasu i wrthsefyll y newidiadau yn yr hinsawdd, ac yn cyfrannu at leihau perygl llifogydd. | | WG | WG | WG | DdB | DdB | DdB | WG |
| 10. Ceisio cydbwysedd rhwng cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chadwraeth amgylcheddol, yn arbennig mewn perthynas ag ynni gwynt ac wrth benderfynu ar rôl technolegau ynni adnewyddadwy eraill. | | WG | WG | WG | DdB | DdB | DdB | WG |
| 11. Cadw a gwella tirwedd Ceredigion gan gwmpasu'r amgylcheddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol | | WG | WG | WG | DdB | WG | WG | WG |
| 12. Gwarchod rhag colli bioamrywiaeth a chysylltedd ledled Ceredigion a mynd ati i'w cryfhau, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn lleol. Ar yr un pryd, gwella mwynhad a dealltwriaeth o fioamrywiaeth drwy annog mynediad at safleoedd o ddiddordeb cadwraeth; cyn belled â bod modd diogelu eu cyfanrwydd ecolegol | | DdB | WG | WG | DdB | DdB | DdB | WG |
| 13. Annog ffordd gynaliadwy o ymdrin â datblygiadau mewn mannau arfordirol, gan amddiffyn | | WG | WG | WG | DdB | WG | WG | WG |

Draft

| | Nod Llesiant Cenedlaethol | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cyfanrwydd treftadaeth naturiol a ffisegol yr ardal yr un pryd. | | | | | | | | |
| 14. Amddiffyn a rheoli gwasanaethau ecosystemau Ceredigion a'i hadnoddau naturiol, gan gynnwys pridd, aer, dŵr a geoamrywiaeth, er mwyn cynnal a gwella eu gwerth heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol | | WG | WG | WG | WG | WG | DdB | WG |
| 15. Darparu cyflenwad digonol a chynaliadwy o adnoddau mwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas, heb beryglu'r amgylchedd, amwynderau, geoamrywiaeth nac anghenion adnoddau'r dyfodol. | | WG | WG | DdB | DdB | DdB | DdB | WG |
| 16. Helpu i wella'r potensial ar gyfer teithio cynaliadwy; mynediad cydradd; a chysylltedd y sir er lles yr economi, ei chymunedau a'u hiechyd a'u lles | | WG | DdB | WG | WG | WG | DdB | WG |
| 17. Annog darpariaeth ddigonol o gyfleustodau ledled y sir | | WG | DdB | WG | WG | WG | DdB | WG |
| 18. Darparu ar gyfer rheoli gwastraff ac adennill adnoddau yn gynaliadwy, gyda'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol, iechyd dynol, cymdeithasol ac economaidd niweidiol i'r eithaf, gwneud yn fawr o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd, a diwallu anghenion cymunedau a busnesau. | | WG | WG | WG | WG | WG | DdB | WG |

Draft

3.1.3 Mae'r asesiad yn Nhabl 3.1 uchod yn dangos bod y Nodau Llesiant Cenedlaethol yn berthnasol i Weledigaeth ac Amcanion CDLl Ceredigion mewn dau achos yn unig, a cheir posibilrwydd y gallai cymhwyso'r nodau hyn awgrymu gwelliant. Trafodir hyn yn Adran 4.

3.1.4 Mae'r tabl nesaf yn darparu asesiad tebyg o gysondeb Gweledigaeth ac Amcanion CDLl Ceredigion â Nodau Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ei Nodau o dan ddwy Egwyddor Arweiniol, sef Cydnerthedd Cymunedol a Chydnerthedd Unigol. Yr Egwyddor Arweiniol briodol i asesu cysondeb CDLl Ceredigion yn ei erbyn yw 'Cydnerthedd Cymunedol'. Felly, mae Tabl 3.2 isod yn darparu asesiad yn erbyn y tri Nod a nodir o dan yr egwyddor hon.

3.1.5 O ran Tabl 3.2, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio system cod lliw wahanol iawn i Dabl 3.1 ar gyfer eglurder gweledol mewn perthynas â'r ddau asesiad gwahanol a gwblhawyd.

| **Allwedd** | |
|---|---|
| Y Nod Llesiant wedi'i gyflawni | WG |
| Byddai'r Nod Llesiant yn gwella amcan y CDLl | G |
| Y Nod Llesiant heb ei fodloni gan amcan y CDLl | HF |
| Y Nod Llesiant ddim yn berthnasol i amcan y CDLl | DdB |

Draft

## Tabl 3.2 Asesiad o gysondeb Gweledigaeth ac Amcanion CDLl Ceredigion â'r Nodau Llesiant Cenedlaethol

| | Amcan Llesiant CSC | Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd | Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn | Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan Cynllun Datblygu Lleol CSC** | | | | |
| 1. Darparu ar gyfer ystod a chymysgedd o dai i ddiwallu'r gofynion tai trefol a gwledig ac anghenion amrywiol poblogaeth Ceredigion, sy'n tyfu ac yn heneiddio, rhwng 2007 a 2022. | | WG | WG | DdB |
| 2. Hyrwyddo economi gwledig cynaliadwy, amrywiol a blaengar er budd Ceredigion a'i chymunedau lleol; ac annog adfywio a datblygu trefi'r Sir fel eu bod yn barod i gwrdd â sialensiau economi fodern a dynamig. | | WG | WG | DdB |
| 3. Annog twf sector manwerthu cynaliadwy i gynnal a gwella canol trefi bywiog ac i amddiffyn a datblygu cyfleusterau manwerthu lleol a chymunedol ledled y Sir. | | WG | WG | DdB |
| 4. Annog a hyrwyddo sector twristiaeth cynaliadwy, ystyriol o'r amgylchedd, gydol y flwyddyn ledled Ceredigion, a bod y sector yn cael ei gynnal gan sylfaen llety dda yn darparu ar gyfer ystod eang o farchnadoedd ac yn darparu cyfleusterau amrywiol ar gyfer pob tymor. | | WG | WG | WG |
| 5. Hybu patrwm twf sy'n help i gynnal bywiogrwydd nid dim ond y trefi a'r gefnwlad wledig o'u cwmpas ond hefyd gymunedau gwledig y sir | | WG | WG | WG |

Draft

| | Amcan Llesiant CSC | Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd | Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn | Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd |
|---|---|---|---|---|
| eang hon, a hynny mewn ffordd sy'n cryfhau ei nodweddion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ac yn sicrhau'r hygyrchedd a'r cysylltedd cynaliadwy gorau posib | | | | |
| 6. Cynnal a gwella amgylchedd adeiledig o safon uchel sydd: yn caniatáu dylunio arloesol, yn adlewyrchu ymdeimlad o le, yn hawdd cyrchu ato a'i ddefnyddio, yn ddiogel i fyw ynddo ac yn helpu gwella iechyd a lles ei gymunedau. | | DdB | WG | DdB |
| 7. Gwella a helpu sicrhau bod lefel briodol o gyfleusterau a gwasanaethau addysg, iechyd, diwylliannol, cymdeithasol, adloniant, cymunedol, chwaraeon a hamdden yn cael eu darparu a'u hamddiffyn a bod mynediad priodol atynt | | DdB | WG | DdB |
| 8. Cefnogi datblygu'r iaith Gymraeg a hybu cymunedau dwyieithog cynhwysol yng Ngheredigion. | | WG | WG | DdB |
| 9. Sicrhau bod datblygiadau'n lleihau nwyon tŷ gwydr Ceredigion i'r eithaf, yn unigol ac yn gronnus; a cheisio'u lleihau lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Sicrhau bod pob datblygiad yn gydnerth ac yn gallu ymaddasu i wrthsefyll y newidiadau yn yr hinsawdd, ac yn cyfrannu at leihau perygl llifogydd. | | DdB | DdB | WG |
| 10. Ceisio cydbwysedd rhwng cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chadwraeth amgylcheddol, yn arbennig mewn perthynas ag ynni gwynt ac wrth benderfynu ar rôl technolegau ynni adnewyddadwy eraill. | | WG | DdB | WG |

Draft

| | Amcan Llesiant CSC | Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd | Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn | Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd |
|---|---|---|---|---|
| 11. Cadw a gwella tirwedd Ceredigion gan gwmpasu'r amgylcheddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol | | WG | WG | WG |
| 12. Gwarchod rhag colli bioamrywiaeth a chysylltedd ledled Ceredigion a mynd ati i'w cryfhau, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn lleol. Ar yr un pryd, gwella mwynhad a dealltwriaeth o fioamrywiaeth drwy annog mynediad at safleoedd o ddiddordeb cadwraeth; cyn belled â bod modd diogelu eu cyfanrwydd ecolegol | | DdB | DdB | WG |
| 13. Annog ffordd gynaliadwy o ymdrin â datblygiadau mewn mannau arfordirol, gan amddiffyn cyfanrwydd treftadaeth naturiol a ffisegol yr ardal yr un pryd. | | WG | DdB | WG |
| 14. Amddiffyn a rheoli gwasanaethau ecosystemau Ceredigion a'i hadnoddau naturiol, gan gynnwys pridd, aer, dŵr a geoamrywiaeth, er mwyn cynnal a gwella eu gwerth heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol | | WG | DdB | WG |
| 15. Darparu cyflenwad digonol a chynaliadwy o adnoddau mwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas, heb beryglu'r amgylchedd, amwynderau, geoamrywiaeth nac anghenion adnoddau'r dyfodol. | | WG | DdB | WG |
| 16. Helpu i wella'r potensial ar gyfer teithio cynaliadwy; mynediad cydradd; a chysylltedd y sir er lles yr economi, ei chymunedau a'u hiechyd a'u lles | | WG | WG | WG |

Draft

| | Amcan Llesiant CSC | Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd | Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn | Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd |
|---|---|---|---|---|
| 17. Annog darpariaeth ddigonol o gyfleustodau ledled y sir | | WG | DdB | WG |
| 18. Darparu ar gyfer rheoli gwastraff ac adennill adnoddau yn gynaliadwy, gyda'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol, iechyd dynol, cymdeithasol ac economaidd niweidiol i'r eithaf, gwneud yn fawr o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd, a diwallu anghenion cymunedau a busnesau. | | WG | DdB | WG |

Draft

3.1.6 Mae'r asesiad yn Nhabl 3.2 uchod yn awgrymu bod cysondeb llwyr rhwng Gweledigaeth ac Amcanion CDLl Ceredigion a'r Nodau Llesiant Ceredigion perthnasol o dan yr Egwyddor Gyffredinol o Gydnerthedd Cymunedol. Nid oes unrhyw sylwadau i'w dwyn ymlaen o'r asesiad hwn i'r adran nesaf.

3.1.7 Wrth ymgysylltu ar baratoi CDLl2 yn dilyn Adroddiad yr Adolygiad 2017, cynigiodd cyfarfod o'r Gweithgor Aelodau y dylai'r Weledigaeth ar gyfer y CDLl gael ei ailystyried er mwyn iddo fod mewn ffurf fyrrach, gyda thestun esboniadol. Mae'n briodol, felly, i gymhwyso'r asesiadau cysondeb Nodau/Amcanion Llesiant Lleol i'r Weledigaeth arfaethedig newydd er mwyn llywio ymgysylltu pellach cyn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl2.

3.1.8 Mae Tabl 3.3 isod yn dangos perfformiad y Weledigaeth newydd arfaethedig ar gyfer cysondeb â'r Nodau Llesiant Cenedlaethol a'r Amcanion Llesiant Lleol.

Draft

**Tabl 3.3 Asesiad o gysondeb Gweledigaeth CDLl Ceredigion newydd â'r Nodau Llesiant Cenedlaethol a'r Amcanion Llesiant Lleol**

| | Nodau Llesiant Cenedlaethol | | | | | | | Amcanion Llesiant Lleol Ceredigion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweledigaeth Newydd Arfaethedig ar gyfer CDLl2 (a thestun esboniadol)** | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang | Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd | Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn | Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd |
| **Erbyn 2033, bydd Ceredigion yn Sir o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiol, lle mae pobl yn dewis byw, gweithio ac ymweld, sydd wedi'i hymrwymo i'w heconomi, diwylliant, treftadaeth, amgylchedd ac adnoddau naturiol.** | WG | WG | WG | WG | WG | WG | WG | Ff | WG | WG |
| Testun ategol:<br>Bydd Cynllun Datblygu Lleol 2 yn darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n: | | | | | | | | | | |
| • bodloni anghenion tai, economaidd, seilwaith, cymunedol, iechyd a llesiant; | WG | DdB | WG | WG | WG | DdB | WG | WG | WG | DdB |

| | Nodau Llesiant Cenedlaethol | | | | | | | Amcanion Llesiant Lleol Ceredigion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweledigaeth Newydd Arfaethedig ar gyfer CDLl2 (a thestun esboniadol)** | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang | Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd | Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn | Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd |
| • addasu ac yn ymateb yn gadarnhaol i heriau newid hinsawdd; | WG | WG | WG | DdB | DdB | DdB | WG | DdB | DdB | WG |
| • cefnogi cryfhau'r iaith Gymraeg; | DdB | DdB | WG | WG | WG | WG | DdB | WG | WG | DdB |
| • gwerthfawrogi'r amgylchedd adeiledig a naturiol, golygfeydd a threftadaeth ddiwylliannol am eu hansawdd cynhenid a'r cyfleoedd economaidd cysylltiedig; | WG | WG | WG | DdB | WG | WG | WG | WG | WG | WG |
| • galluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i sicrhau economi fwy amrywiol, blaengar a chydnerth er mwyn ffynnu a llwyddo. | WG | WG | WG | WG | WG | DdB | WG | WG | WG | WG |

# 4. Cadernid y Cynllun Newydd sy'n cael ei Ddatblygu, CDLl2

4.1.1 Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol Drafft, Hydref 2018, yn nodi tri phrawf o gadernid ym mharagraff 6.24 ac yn Nhabl 21, sef:

a. Prawf 1: Ydy'r cynllun yn gyson?
b. Prawf 2: Ydy'r cynllun yn briodol?
c. Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflenwi?

4.1.2 Mae'r prawf cyntaf yn ystyried a yw'r cynllun yn cydymffurfio â chynlluniau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol a'r Nodau Llesiant. Mae'r ail yn delio â chydlyniad o ran sail resymegol, rhesymeg a chydbwysedd y cynllun i ateb yr anghenion a nodir yn y sylfaen dystiolaeth gadarn. Mae'r trydydd yn ystyried a yw'r cynllun yn debygol o fod yn un y gellir dangos ei fod yn effeithiol yn ymarferol.

4.1.3 Mae Adroddiad yr Adolygiad CDLl 2017 yn nodi graddfa'r newidiadau y mae'n ofynnol i'w gwneud i'r CDLl Ceredigion gwreiddiol. Cafodd y newidiadau a argymhellir eu llywio gan gasgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth ac arolygon parhaus. Felly mae'r Adolygiad wedi cymhwyso egwyddorion cadernid i ddangos diffygion CDLl1, ac mae'r broses a'r dulliau ar gyfer cyflenwi CDLl 2 yn cael eu llywio ar bob cam gan yr egwyddorion hyn. Mae hyn yn dangos bod y diwygiadau sy'n ofynnol yn briodol, a bod y camau casglu tystiolaeth i wneud y newidiadau gofynnol yn unol â pholisi cenedlaethol a llawlyfr y CDLl. Mae hyn yn dangos y bydd y cynllun yn gyson ac yn briodol. O ran cyflenwi bydd angen tystiolaeth fwy cadarn gan ddatblygwyr ar y cynllun newydd ynghylch eu gallu i gyflenwi eu safleoedd yn ôl y Llawlyfr Drafft, a bydd mwy o ymgysylltu gyda darparwyr seilwaith. Bydd hyn i gyd yn cyfrannu at sicrhau bod safleoedd yn cael eu cyflenwi yn y cynllun newydd.

4.1.4 Mae papurau cefndir a gomisiynwyd ar y cyd ag awdurdodau lleol cyfagos yn dystiolaeth o ymagwedd gydweithredol, er enghraifft, mewn perthynas

Draft

â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Capasiti Manwerthu, Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy, Economi ac ati, tra bo Papurau Pwnc diweddaru yn rhoi manylion ynghylch sut y mae'r awdurdod yn ailasesu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun. Mae cyfleoedd ymgysylltu wedi cael eu cynnwys yn y broses baratoi, a chaiff manylion eu cyhoeddi yn y crynodeb o'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol ochr yn ochr ag adneuo'r cynllun newydd.

4.1.5 Yn y pen draw, yr hyn y bydd angen ei asesu'n llawn yw'r Cynllun Adnau a'i safleoedd dyranedig cysylltiedig ar sail eu cadernid a'r gallu i'w cyflenwi, a hyd nes bod polisïau a dyraniadau'r cynllun wedi'u penderfynu'n derfynol, nid oes modd dangos sut y mae'n bodloni'r holl brofion. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses ailadroddol, ynghyd â diweddariadau parhaus i Bapurau Pwnc, mae'r asesiadau o gysondeb y CDLl â'r Nodau ac Amcanion Llesiant yn y papur hwn yn cyfrannu at drosolwg sy'n sicrhau ymrwymiadau i 'gadernid' CDLl2.

## 5. Casgliadau / Argymhellion

5.1.1 Mae'r Asesiad yn Nhablau 3.1, 3.2 a 3.3 uchod yn awgrymu bod y Nodau Llesiant Cenedlaethol yn berthnasol i Weledigaeth ac Amcanion CDLl Ceredigion mewn dau achos yn unig, ac mewn perthynas â thestun craidd y Weledigaeth a'r Testun Esboniadol amgen arfaethedig, ceir posibilrwydd y gallai cymhwyso'r nodau hyn awgrymu bod angen gwelliant.

5.1.2 Mae'n symlach i ddelio ag asesiad o'r Weledigaeth wreiddiol a'r Weledigaeth newydd arfaethedig yn gyntaf cyn symud ymlaen i drafod Amcan 4 CDLl Ceredigion.

5.1.3 Yng Ngweledigaeth wreiddiol Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at yr economi. Yn wyneb y pwysigrwydd a roddir i Dyfu Canolbarth Cymru a'r ffocws ar ychwanegu gwerth i economi Ceredigion wrth i ni symud tuag at gyfnod CDLl 2, 2018-2033, mae rheswm dros ystyried a ddylai'r Weledigaeth gynnwys cyfeiriad mwy penodol at yr economi.



Draft

5.1.4 Mae'r Weledigaeth wedi cael ei thrafod yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Gweithgor Aelodau a digwyddiad i randdeiliaid allweddol a gynhaliwyd yn 2018/2019, a chynigiwyd Gweledigaeth fwy cryno gyda thestun esboniadol. Mae'r Asesiad yn Nhabl 3.3 yn dangos er bod 'gwaith' yn cael ei grybwyll, mae'r Weledigaeth gryno newydd a gynigiwyd yn gychwynnol yn parhau'n wan ar y cyfan ar yr economi, er bod y testun esboniadol ym mhwynt 3 yn ehangu ar yr uchelgais economaidd. Yn y gweithdai diweddarach, cafodd y gair 'economi' ei gynnwys cyn 'diwylliant' i ddelio â hyn.

5.1.5 Felly, argymhellir bod y Weledigaeth newydd arfaethedig gyda thestun esboniadol fel y'i diwygiwyd yn cael ei gario ymlaen i CDLl 2 ar sail yr asesiadau o gysondeb llesiant.

5.1.6 O ran asesiad Amcan 4 y CDLl mewn perthynas â'r Nod Llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', mae'r asesiad yn felyn – gellid ei wella. Nid oes unrhyw gyfeiriad at dwristiaeth ddiwylliannol yn Amcan 4 fel y mae wedi'i ysgrifennu ar hyn o bryd. Mae'r nod hwn wrth wraidd yr argymhellion ymarferol mewn strategaethau twristiaeth ar lefel Cymru, Canolbarth Cymru a Cheredigion. Dylai gael ei adlewyrchu yn Amcan 4 y CDLl ochr yn ochr â sôn am yr amgylchedd, yn arbennig oherwydd ei fod yn cwmpasu'r syniad o nodi 'lle' daearyddol clir ble y gellir dod o hyd i asedau naturiol a diwylliannol. Gall polisïau cynllunio defnydd tir o dan amcan o'r fath yn y CDLl gael eu harfarnu i asesu i ba raddau y maent yn gallu rhoi sylw cadarnhaol i faterion posibl seiliedig ar le, gan ddarparu dulliau rheoli datblygu cadarnhaol o'r asedau y gall twristiaeth gael ei datblygu arnynt.

5.1.7 Felly argymhellir y dylid newid geiriad Amcan 4 fel a ganlyn:

5.1.8 'Annog a hyrwyddo sector twristiaeth cynaliadwy sydd wedi'i seilio ar gynllunio rheoli cyrchfan, yn canolbwyntio ar ddatblygu asedau diwylliannol ac amgylcheddol mewn modd sensitif ledled Ceredigion, ac sy'n cael ei gynnal gan sylfaen llety dda sy'n darparu ar gyfer ystod eang o farchnadoedd ac sy'n darparu cyfleusterau amrywiol ar gyfer pob tymor.'



Draft

5.1.9 Mewn perthynas â sicrhau 'cadernid' CDLl 2 ynghyd â diweddariadau parhaus i'r Papurau Pwnc, lle mae adolygiadau a'r dystiolaeth ddiweddar yn cael sylw manwl o ran eu heffaith ar y cynllun, mae'r asesiadau o gysondeb y CDLl â'r Nodau ac Amcanion Llesiant yn y papur hwn yn cyfrannu at drosolwg sy'n sicrhau ymrwymiad at 'gadernid' y CDLl2.

Drafft